# Cyngor Rhondda Cynon Taf

## Dirprwy Bennaeth

## Ysgol Llanhari

## Gwybodaeth Ychwanegol

| CYNNWYS | | |
|---|---|---|
| Adran | | Tudalen |


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Llythyr oddi wrth y Cyfarwyddwr Addysg | **3** |
| 2. | Y Cyd-destun Lleol yn Rhondda Cynon Taf | **5** |
| 3. | Gwybodaeth ynglŷn â Chonsortiwm Canolbarth y De | **9** |

## 1. Llythyr gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am ddangos diddordeb mewn gwneud cais am y swydd allweddol yma gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2020-2024 yn tynnu sylw at ei uchelgais o sicrhau bod pawb mor iach, annibynnol a llewyrchus ag sy'n bosibl trwy gydol eu bywydau. Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn ymdrechu i sicrhau bod pob disgybl yn y Fwrdeistref Sirol yn cael mynediad i ysgolion rhagorol a phrofiadau addysgol cadarnhaol a chyfoethog sy'n eu galluogi i gyflawni'r deilliannau addysgol gorau posibl yn unol â'u gallu.

Mae Cynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ar gyfer 2022-2025 yn nodi cyfeiriad ein Cyfarwyddiaeth am y 3 blynedd nesaf, gan amlinellu ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n huchelgais ar gyfer ein hysgolion yn Rhondda Cynon Taf. Ein cenhadaeth yw 'sicrhau tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg a gwell lles i bawb'. Mae partneriaethau cadarn wedi cael eu sefydlu rhwng yr awdurdod lleol, ein lleoliadau nas cynhelir, ysgolion ac unedau atgyfeirio disgyblion trwy gydol y pandemig. Mae'r partneriaethau yma'n gadarn gyda phob un yn rhannu'r un brwdfrydedd a'r un nod sef sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad i brofiadau dysgu ac addysgu o'r ansawdd uchaf, fel bod modd iddyn nhw wneud cynnydd a thyfu i fod yn ddysgwyr gydol oes. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth **‘Ysbrydoli a bod yn gefn i arweinyddiaeth ac ymarfer proffesiynol rhagorol, fel bod pob disgybl yn Rhondda Cynon Taf yn gwneud cynnydd da ac yn tyfu'n unigolyn uchelgeisiol, galluog, creadigol ac sy'n wybodus yn foesegol’** mae angen arweinyddiaeth ac ymarfer proffesiynol gwych arnon ni ar bob lefel yn y system.

Mae’r dirwedd addysgol yng Nghymru yn newid ac mae'n cyflwyno heriau wrth i ni fynd i’r afael ag effaith y pandemig, materion cyllidebol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, poblogaeth sy’n newid yn gyflym a diwygiadau mawr i'r cwricwlwm a materion anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r pandemig wedi cyflwyno pwysau digynsail ac mae ein gweithlu wedi ymateb i’r her ac wedi gweithio’n ddiflino i oresgyn y rhwystrau yma er budd ein disgyblion a’n cymunedau. Mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n creu diwylliant effeithiol o degwch a rhagoriaeth mewn addysg a disgwyliadau uchel i bawb. Bydd datblygu polisïau ac arferion addysgeg effeithiol sy’n cefnogi dilyniant a datblygiad pob disgybl, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed, yn ganolog i hyn.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein hysgolion a bydd ein Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif uchelgeisiol gwerth £252 miliwn yn adeiladu ar ein rhaglen Band A helaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod ein disgyblion yn cael mynediad i amgylcheddau dysgu hygyrch ac sy'n eu hysgogi a fydd yn eu paratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas sy'n datblygu'n gyflym ac sydd wedi'i chysylltu'n ddigidol.

Bydd y dirwedd addysgol newidiol yng Nghymru yn profi ein gallu a’n cydnerthedd, ond mae’r Gyfarwyddiaeth a’n hysgolion wedi dangos bod modd i ni gydweithio mewn modd

creadigol ac arloesol i ddiwallu anghenion newidiol plant, pobl ifainc a theuluoedd Rhondda Cynon Taf. Mae ein gweithlu'n ganolog i ni wneud gwahaniaeth i fywydau ein disgyblion a'n cymunedau. Rydw i'n gobeithio y byddwch chi eisiau dod yn rhan o garfan arloesol sy'n ymdrechu i ddarparu rhagoriaeth i holl ddisgyblion Rhondda Cynon Taf. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn eich cais.

Yn gywir,



**Gaynor Davies**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**

## 2. Y Cyd-destun Lleol

### 2.1 Cynllun Strategol 2022-2025 Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Mae Cynllun Strategol Addysg Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant 2022-2025, yn amlinellu cenhadaeth, gweledigaeth a blaenoriaethau gwella’r Gyfarwyddiaeth yn ystod y cyfnod pwysig yma ar gyfer y system Addysg. Mae'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ac yn dangos y ffordd ymlaen i'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ac i ysgolion am y tair blynedd nesaf, fel bod modd i ni gyflawni gwelliannau cynaliadwy yn ein hysgolion ac yn ein gwasanaethau, a deilliannau gwell i'n disgyblion a chymunedau.

Ein cenhadaeth yn Rhondda Cynon Taf yw ' **sicrhau tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg a gwell lles i bawb'** , diffiniad rhagoriaeth yw canlyniad graddol 'ymdrechu i wella o hyd' a sicrhau gwelliannau. Cydnabyddir yn eang bod rhagoriaeth ‘yn cymryd gwaith caled, arweinyddiaeth gref, gweledigaeth glir ac ymroddiad di-baid i gyflawni’ (Estyn 2020). Mae’r Gyfarwyddiaeth a’r gwasanaethau gwella ysgolion a gomisiynwyd, Consortiwm Canolbarth y De, yn gweithio mewn partneriaeth â ni i sicrhau bod arweinwyr ein hysgolion a’n hysgolion yn cael eu cefnogi’n dda i gyflawni tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg a llesiant gwell i bawb.

Dim ond os ydyn ni'n sicrhau bod y system yn nodi ac yn mynd i'r afael â'r heriau unigryw sy'n cyflwyno'u hunain i unigolion neu grwpiau o ddisgyblion mae modd i ni sicrhau tegwch. Mae mynediad at y cymorth cywir ar yr adeg gywir i oresgyn rhwystrau i ddysgu yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y rhai sy'n wynebu heriau economaidd-gymdeithasol yn ein cymunedau.

Ein gweledigaeth yw **‘Ysbrydoli a bod yn gefn i arweinyddiaeth ac ymarfer proffesiynol rhagorol, fel bod pob disgybl yn Rhondda Cynon Taf yn gwneud cynnydd da ac yn tyfu'n unigolyn uchelgeisiol, galluog, creadigol ac sy'n wybodus yn foesegol’.**

Mae ein gweithlu'n ganolog i ni wneud gwahaniaeth i fywydau ein disgyblion a'n cymunedau. Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn ystod y pandemig, rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio'n gadarnhaol ar sicrhau bod gennyn ni arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr addysgol o'r ansawdd uchaf yn ein hysgolion. Bydd cael gweithlu medrus a hyfforddedig iawn yn ein galluogi ni i ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol a phrofiadau addysgol o ansawdd uchel ar draws ein hysgolion, a fydd yn parhau i fod yn ffocws hanfodol dros y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

Bydd ein strategaeth yn rhoi blaenoriaeth i'r meysydd hynny sydd wedi bod yn effeithiol wrth gyflawni ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'r meysydd a nodwyd yn sgil dulliau hunanarfarnu cadarn ac adborth gan randdeiliaid. Mae'r rhain hefyd yn adlewyrchu ein blaenoriaethau corfforaethol lleol a bennwyd yng nghyd-destun adferiad a diwygiad cenedlaethol a lleol. Mae’r pum blaenoriaeth allweddol yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Blaenoriaeth 1: | Datblygu gweithlu addysgol medrus iawn a datblygu arweinyddiaeth ragorol ar bob lefel. |

| | |
|---|---|
| Blaenoriaeth 2: | Rhoi cymorth i ysgolion ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol, darpariaeth ddysgu ac addysgu o safon uchel a deilliannau gwell i bawb. |
| Blaenoriaeth 3: | Sicrhau tegwch a chymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. |
| Blaenoriaeth 4: | Gwella lles ein disgyblion a'r gweithlu. |
| Blaenoriaeth 5: | Cyflwyno amgylcheddau dysgu a gwasanaaethau arloesol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer ein disgyblion a'n cymunedau. |

Mae'r pandemig wedi dangos i ni fod angen i'n cenhedlaeth bresennol o ddisgyblion a gweithwyr a chenedlaethau sydd i ddod fod yn gydnerth, yn greadigol a meddu ar y gallu i addasu. Does dim modd i ni fod yn sicr pa heriau byddwn ni'n eu hwynebu trwy gydol cyfnod y cynllun yma. Serch hynny, mae modd inni fod yn hyderus ein bod ni, trwy weithio ar y cyd fel un tîm, yn gryfach ac mewn sefyllfa well i gyflawni ein cenhadaeth ar gyfer tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg, gwell lles i bawb a dyfodol gwell a mwy disglair i ddisgyblion a chymunedau.

I gael rhagor o fanylion am y Gyfarwyddiaeth Addysg, ewch i:
https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/Schoolsandlearning.aspx

## 2.2 Ein Cyd-destun Economaidd Gymdeithasol

Mae poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn parhau i dyfu ac ar adeg ysgrifennu (2021) roedd ganddi boblogaeth o 241,873. O ran poblogaeth, dyma'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru, ond mae lefelau cyflogaeth Rhondda Cynon Taf yn is na chyfartaledd Cymru, gyda 67.3% o'r boblogaeth (oed 16+) mewn cyflogaeth o'i chymharu â 72.8% ledled Cymru. Mae 18.6% o'r boblogaeth yn 0-15 oed (17.8% yng Nghymru). Mae'r twf sylweddol yn nifer y disgyblion ledled y Fwrdeistref Sirol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y pandemig, yn adlewyrchu effaith economaidd sylweddol y pandemig ar ein cymunedau.

## 2.3 Byw yn Rhondda Cynon Taf

### Mannau ac atyniadau

Mae gan ardal Rhondda Cynon Taf lawer i'w gynnig, p'un ai'ch bod chi'n edrych am gyfleoedd diwylliant, siopa, chwaraeon neu'r cyfan ohonyn nhw. Mae digon o fannau i gymdeithasu ynddyn nhw yma hefyd. Mae Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn enwog ledled y byd am ei rôl ganolog yn y chwyldro diwydiannol ac rydyn ni'n parhau i fod yn falch o'n treftadaeth gyfoethog a'n hanes diwylliannol. Fodd bynnag, nawr bod y pyllau glo wedi mynd, mae ein tirwedd wedi dychwelyd i ehangder harddwch naturiol syfrdanol sydd cystal ag unrhyw dirwedd yn y wlad. Yr unig wahaniaeth rhwng tirwedd RhCT a'r rheini sydd eisoes yn gyrchfannau twristiaeth mawr yw bod ein tirwedd ni ar y cyfan yn dal i fod yn gyfrinach!

### Treftadaeth

Mae yna hen ddigon o amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth i ymweld â nhw yn y rhanbarth. Mae Parc Treftadaeth Cwm Rhondda, yn Nhrehafod, yn rhoi cyfle i chi gael blas ar hynt a helynt y diwydiant glo yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ogystal â'i dranc. I gael gwybod rhagor am hanes Pontypridd, galwch heibio i'r Ganolfan Hanes a Diwylliant, sydd wrth ymyl y bont fwa, a gafodd ei hadeiladu ym 1756. Efallai bydd y sawl ohonoch chi sy'n ymddiddori mewn hanes yn hoffi dod i wybod rhagor am yr Anthem Genedlaethol, Hen Wlad fy Nhadau, a gafodd ei chyfansoddi yma ym 1856.

**Yr Awyr Agored**
Os ydych chi'n hoff iawn o gerdded, dyma gyrchfan ar eich cyfer chi. Nid dim ond cerddwyr sy'n mwynhau ein golygfeydd ysblennydd ni. Rydyn ni hefyd yn darparu ar gyfer pawb sy'n hoff o fwynhau'r awyr agored yn fwy hamddenol. Dewch chi o hyd i barc prydferth Parc Gwledig Cwm Dâr wrth ymyl Aberdâr.

Mae gennyn ni rai o briffyrdd uchaf y Deyrnas Unedig, gyda lleoedd i'w cael ar y copaon i fwynhau golygfeydd godidog o Fannau Brycheiniog a'r môr. Mae rhannau o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gorwedd yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r ardal odidog sy'n gorwedd ar ochr ddeheuol y prif gopaon yn ymestyn tua'r gorllewin i diroedd calch ym mhen uchaf Cwm Hepste a Chwm Mellte. Mae modd i chi gerdded i Bowys ar hyd llwybr sy'n mynd y tu ôl i'r rhaeadr 100 troedfedd o uchder, Sgwd yr Eira.

**Chwaraeon**
Mae sawl clwb rygbi yn yr ardal sy'n darparu ar gyfer pob grŵp oedran, gan ddechrau gyda phlant dan 7 oed hyd at dimoedd hŷn. Rydyn ni wedi gwneud buddsoddiad sylweddol i adnewyddu a gwella nifer o'n canolfannau chwaraeon. Mae amrywiaeth o glybiau chwaraeon sydd at ddant pawb yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys clybiau pêl-droed, pêl-rwyd a bocsio.

**Siopa a mwynhau**
Mae amrywiaeth o siopau yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys siopau celf a chrefft, siopau mawr y trefi, parciau manwerthu a marchnadoedd traddodiadol. Mae llawer o'r siopau cadwyn mawr yn y ganolfan siopa yn Nhonysguboriau hefyd. Mae'r cynnig bwyd a diod o ansawdd uchel yn cynyddu ledled RhCT gyda thafarndai, bwytai a chaffis gwych.

Mae rhai o brif atyniadau Cymru wedi'u lleoli yn RhCT gan gynnwys cyrchfan adrenalin Zip World yn y gogledd a'r Bathdy Brenhinol yn y de. Yn ystod yr haf, mae'n rhaid i chi ymweld â Lido Cenedlaethol Cymru ym Mharc Coffa Ynysangharad.

Mae Theatr y Parc a'r Dâr yn Nhreorci a Theatr y Colisëwm yn Aberdâr yn cynnig digon o bethau ar gyfer y sawl sy'n hoff iawn o'r celfyddydau perfformio. Rhaid galw heibio i'r Tŷ Model hefyd yn Llantrisant, sef un o drefi hynaf Cymru. Dyma'r hen dloty (neu wyrcws). Bellach, mae'n ganolfan ar gyfer cynhyrchu, arddangos a gwerthu crefftau o bob math.

**Gwybodaeth gyffredinol**
Mae Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys tair rhan – ardal Taf-elái, Cwm Rhondda a Chwm Cynon. Ac yntau wedi'i leoli ym mherfeddion y wlad – i gyfeiriad y gogledd o Gaerdydd, rhwng y Bannau Brycheiniog a thraffordd yr M4 – dyma'r awdurdod lleol mwyaf ond un yng Nghymru, gyda thua 242,000 o bobl yn byw mewn 424 o filltiroedd sgwâr.c Roedd y diwydiant glo wedi arwain at dwf mawr yn yr ardal, ond mae newid mawr ar fyd yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r pyllau glo wedi hen fynd. Heddiw, mae amrywiaeth o dirweddau yn weddill. Mae Cymru'n frith o gymoedd, ond chewch chi ddim cymaint o falchder, angerdd a chroeso cynnes yn unman arall.

**Tai**
Mae amrywiaeth eang o ddewisiadau tai ar gael yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys dewis o lety am bris rhesymol a thai mawr dethol. Er bod prisiau tai wedi codi yn ystod y

blynyddoedd diwethaf, mae prisiau tai yn parhau i fod yn gystadleuol iawn yn Rhondda Cynon Taf o'u cymharu ag ardaloedd eraill ledled y Deyrnas Unedig.

**Cludiant**

Mae rhwydwaith ardderchog o wasanaethau rheilffordd a bysiau ar gael ar hyd a lled Rhondda Cynon Taf – ac mae buddsoddi diweddar yn golygu bod gorsafoedd bysiau a threnau wedi gwella'n helaeth. Mae'r rhwydwaith ffyrdd hefyd wedi gweld llawer o newid, gyda phrosiectau mawr yn cael eu gwireddu, ac rydyn ni'n agos i draffordd yr M4, gyda mynediad hawdd i Gaerdydd a thu hwnt. Rydyn ni hefyd yn awyddus i hyrwyddo cerdded a beicio yn Rhondda Cynon Taf. Rydyn ni o'r farn y bydd cyflwyno arferion cerdded a beicio i'r drefn feunyddiol yn cyfrannu at wella iechyd y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd ar yr un pryd.

**Porth i weddill Cymru**

Lle bynnag ydych chi yn Rhondda Cynon Taf, byddwch chi bob amser o fewn cyrraedd hawdd i Gaerdydd, diolch i rwydwaith o briffyrdd a rheilffyrdd ardderchog. Ym mhrifddinas Cymru, mae modd i chi fwynhau amgylchedd diwylliannol cyfoethog ac amrywiol, mewn llefydd fel y Theatr Newydd, Canolfan Dewi Sant ac Arena Motorpoint Caerdydd.  Mae hefyd Stadiwm y Principality, sy'n cael ei hystyried gan nifer o bobl yn un o leoliadau chwaraeon ac adloniant gorau'r byd. Ynghyd â gemau rygbi a phêl-droed rhyngwladol, mae'n croesawu rhai o sêr mwyaf y byd cerddorol.  Mae Castell Caerdydd wrth galon y ddinas, ac mae'n meddu ar bron i 2,000 o flynyddoedd o hanes. Mae'r castell ymhlith prif atyniadau treftadaeth Cymru ac mae arwyddocâd rhyngwladol yn perthyn iddo.

Mae hefyd Ddatblygiad Glanfa Mwyaf Ewrop ym Mae Caerdydd. Mae llyn enfawr o ddŵr croyw wedi'i greu gan Forglawdd Caerdydd, sy'n cronni Afon Taf ac Afon Elái. Mae nifer o atyniadau ym Mae Caerdydd, megis: Canolfan Wyddoniaeth Techniquest – sy'n ddelfrydol ar gyfer y teulu cyfan; Crefft yn y Bae; adeilad Llywodraeth Cymru wrth y lanfa; Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown; Goleulong 2000 Lightship; Canolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd; a Chanolfan Mileniwm Cymru, sy'n ganolfan gelfyddydau ryngwladol syfrdanol.

Mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn ymestyn 14 milltir o'r Barri i Borthcawl. Gyda chlogwyni serth, cildraethau unig a golygfeydd aruthrol, mae'r Arfordir Treftadaeth yn angenrheidiol ar gyfer cerddwyr, beicwyr neu unrhyw un sydd wrth ei fodd yn y wlad. Mae trefi braf, pentrefi bychain a milltiroedd o lwybrau cerdded a lonydd gwledig ar hyd yr arfordir cyfan. Rydych chi hefyd yn agos at Benrhyn Gŵyr, sy'n hardd ac yn berffaith. Mae nifer o nodweddion hanesyddol ar hyd ardal sydd ond yn filltir ar bymtheg o hyd a saith milltir o led. Does rhyfedd bod y penrhyn caeëdig, sydd wedi ei amgylchynu gan Fôr Hafren a Chefnfor Iwerydd, wedi dod yn hafan i gyfoeth o fywyd gwyllt a chynefinoedd mwyaf amrywiol y Deyrnas Unedig.

Ar hyd tirwedd y Gŵyr mae atgofion o'r gorffennol, gan gynnwys cestyll, eglwysi canoloesol, caerau'r Oes Haearn a meini hirion cynhanes. Mae hyn i gyd yn erbyn cefnlen ryfeddol o fryniau, cymoedd, traethau, clogwyni, tir comin, coetiroedd, twyni, corsydd ac ogofâu.

## 3. Consortiwm Canolbarth y De

Consortiwm Canolbarth y De (CCD) yw'r gwasanaeth gwella ysgolion sy'n gweithredu ar ran pum awdurdod lleol, sef: Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf.

Y rhanbarth yma sydd â'r boblogaeth uchaf o unrhyw un yng Nghymru ac mae'n parhau i dyfu'n gyflymach nag unrhyw un arall. Mae 386 o ysgolion yn gwasanaethu 146,000 o blant a phobl ifainc. Dyma draean o blant oedran ysgol Cymru. Mae'r nifer uchaf o blant sy'n byw mewn tlodi yn byw yn y rhanbarth yma. Mae hefyd yn gartref i'r brifddinas a diwydiannau economaidd, ariannol a chreadigol Cymru.

**Gweledigaeth a Chenhadaeth Consortiwm Canolbarth y De:**
Ers sefydlu'r consortiwm yn 2012, mae'r darlun cenedlaethol o ran addysg yng Nghymru wedi datblygu a newid. Cyhoeddodd yr Athro Donaldson adolygiad annibynnol o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu yng Nghymru ym mis Chwefror 2015, gan arwain at ymrwymiad i ddiwygio'r cwricwlwm a chyhoeddi dogfen Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl. Mae'r consortiwm a phartneriaid eraill yn cydweithio fwyfwy i gefnogi'r daith ddiwygio yma yn ogystal â'r cylch gorchwyl gwreiddiol o ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion i awdurdodau lleol y rhanbarth.

Mae'r Consortiwm yn gweithio gyda rhanddeiliaid ledled y rhanbarth i wireddu gweledigaeth CCD, sef:
***"Grymuso ysgolion i wella deilliannau i bob dysgwr."***

Cafodd y Cynllun Busnes ei lunio i fodloni blaenoriaethau ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, yng nghyd-destun cwricwlwm newydd, fframweithiau atebolrwydd newydd, dulliau newydd o gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, gweithredu ysgolion fel sefydliadau dysgu, gwaith yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, a Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, yn ogystal â newidiadau i'r ffordd y bydd Estyn yn arolygu ysgolion ac awdurdodau lleol.

Amlinellir strategaeth gyflawni y CCD yn nogfen Her Canol De Cymru.

Cytunwyd ar flaenoriaethau cyffredinol ar gyfer y CCD ar gyfer 2021/22 gyda'r Cydbwyllgor ym mis Rhagfyr 2020:


1. Datblygu proffesiwn addysg safon uchel;
2. Datblygu dulliau arweinyddiaeth hynod effeithiol i hwyluso cydweithio i godi safonau;
3. Datblygu ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrói i les, rhagoriaeth a thegwch;
4. Parhau i ddatblygu trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn sy'n cefnogi system sy'n gwella ei hunan.
5. Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y CCD.

Mae cynllun gweithredol manwl sy'n amlinellu sut a phryd y bydd agweddau o bob blaenoriaeth yn cael eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys meini prawf llwyddiant meintiol ac ansoddol allweddol ar gyfer mesur cynnydd.

Mae modd i chi weld y cynllun busnes yma: [Cynllun Busnes Consortiwm Canolbarth y De 2021-2022 (cscjes-cronfa.co.uk)]()

## Section 1: How the Central South Consortium Supports School Improvement across the Region

### 1.1 Context and Educational Outcomes across Central South Wales




*Updated: September 2020*

**Adroddiadau Arolygu Estyn**

Mae modd gweld adroddiadau arolygu ar gyfer yr ysgolion sydd yn y Consortiwm ar Wefan Estyn.

Mae modd i chi gael rhagor o wybodaeth am y Consortiwm trwy fynd i'w wefan http://www.cscjes.org.uk/

# YSGOL LLANHARI

# <u>Disgrifiad Swydd</u>

# Dirprwy Bennaeth

| Disgrifiad Swydd | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** Y Dirprwy Bennaeth | **Graddfa Cyflog i Arweinwyr:** 19-23 |
| **Adran:** Tîm Arwain | **Yn atebol i:** Y Pennaeth |
| **Telerau'r Cytundeb:** Parhaol | **Lefel Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:** Manwl |

**CYFRIFOLDEBAU PENODOL**

Mae'r penodiad yma yn ddarostyngedig i'r amodau cyflogi ar gyfer dirprwy benaethiaid sydd wedi eu nodi yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, Deddf Addysg 1997, y safonau gofynnol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig, deddfwriaeth addysg gyfredol arall ac erthyglau llywodraethu'r ysgol. Bydd y Dirprwy Pennaeth yn cefnogi, yn arddangos ac yn hyrwyddo'r safonau, y gwerthoedd a'r agweddau a nodir yn Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

**DIBEN Y SWYDD**

Gweithio gyda'r Pennaeth ac aelodau eraill y Tîm Arwain i ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth broffesiynol arbennig i'r ysgol. Bydd y Dirprwy Bennaeth yn cyflawni'r dyletswyddau sydd wedi'u hamlinellu yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau i Athrawon Ysgol yn ogystal â deddfwriaethau perthnasol eraill ym maes addysg, ac yn cyflawni dyletswyddau'r rôl yn unol â deddfwriaeth gyflogaeth berthnasol. Bydd gofyn i chi weithio mewn partneriaeth â'r Pennaeth, Llywodraethwyr a staff i sicrhau bod yr ysgol yn gwella'n barhaus.

Ymrwymiad proffesiynol gan ddeiliad y swydd i adolygu a gwerthuso eu sgiliau yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Arweinyddiaeth er mwyn symud ymlaen yn barhaus ar draws y continwwm o arfer Arweinyddiaeth effeithiol i Arweinyddiaeth effeithiol iawn yn barhaus ym meysydd:

- Addysgeg
- Arweinyddiaeth
- Dysgu Proffesiynol
- Cydweithio
- Arloesi

Dirprwyo ar ran y Pennaeth pan fydd angen gwneud hynny.

**AMCANION ALLWEDDOL**

Yn ogystal â gofynion athro/athrawes dosbarth, dyma'r meysydd cyfrifoldeb a'r tasgau allweddol:

**A. Cyfeiriad strategol a datblygiad yr ysgol** - mewn cydweithrediad â, a than gyfarwyddyd, y Pennaeth:

- cefnogi a sicrhau ymrwymiad eraill i weledigaeth, ethos a pholisïau'r ysgol a hyrwyddo lefelau uchel o gyrhaeddiad;

- cefnogi, adolygu , monitro a llunio polisiau gan ddadansoddi eu heffaith er mwyn hyrwyddo'r uchod

- cefnogi creu a gweithredu Cynllun Gwella Ysgol o fewn y cyd-destun cenedlaethol a lleol, a chymryd cyfrifoldeb unigol dros arwain agweddau priodol ohono a ddirprwyir;

- cefnogi'r holl staff i gyflawni'r blaenoriaethau a'r targedau y mae'r ysgol yn gosod ar gyfer ei hun, ac i roi cefnogaeth ac arweiniad wrth weithredu cynlluniau gan gynnwys darparu HMS pan fo'n briodol.

- arwain, cefnogi a chymryd cyfrifoldeb unigol dros agweddau penodol o brosesau hunanwerthuso amrywiol agweddau o waith yr ysgol.

- sicrhau bod rhieni yn cael gwybodaeth dda am gwricwlwm yr ysgol, targedau'r ysgol, cyrhaeddiad a lles plant a'u rhan yn y broses o wella.

- arwain, monitro a chefnogi'r staff cyfan i gyrraedd blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

**B. Arwain a Rheoli :**

- Ysgwyddo dyletswyddau'r Pennaeth a rheoli'r ysgol yn effeithiol yn ei habsenoldeb.

- Arwain a chynghori ar flaengareddau ysgol gyfan a fydd yn arwain at godi safonau

- Gweithredu fel rheolwr llinell ar arweinwyr canol ac athrawon cynradd ac uwchradd

- Adrodd i Lywodraethwyr ar agweddau o gyfrifoldebau a mynychu cyfarfodydd y Corff Llawn ac amrywiol bwyllgorau.

- Arwain a darparu cefnogaeth i amrywiol dimau o staff a chyfrannu at waith gyda rhanddeiliad eraill.

- Chwarae rhan flaenllaw wrth benodi staff

- Arfer rôl gyhoeddus y swydd drwy gefnogi a mynychu gweithgareddau ysgol/allgyrsiol.

- Chwarae rhan flaenllaw mewn paratoadau ar gyfer adolygiad/ arolwg ysgol/ adrannol.

- Defnyddio data perfformiad i osod targedau heriol i staff a'u cefnogi i gyrraedd y targedau.

- Cydweithio â'r Consortiwm a'r AALL ar feysydd o fewn y dyletswyddau penodol.

- Bod yn ymwybodol o faterion Iechyd a Diogelwch ar draws yr ysgol a'r amgylchedd dysgu a chwarae rhan flaenllaw mewn datblygu'r amgylchedd.

- Hyrwyddo llinellau cyfathrebu da ar draws yr ysgol a chynorthwyo'r Tîm Arwain i fod yn effeithiol ac effeithlon yn eu rheolaeth a'u harweinyddiaeth o'r ysgol.

- cefnogi'r Pennaeth i ddatblygu perthynas waith gadarnhaol gyda, a rhwng yr holl staff ac i ddarparu a chynnal cymhelliant

- arwain grwpiau o staff mewn gweithgareddau datblygiadol, dirprwyo'n briodol a gwerthuso canlyniadau
- cefnogi'r Pennaeth wrth weithredu polisi Rheoli Perfformiad yr ysgol

**C. Cefnogi Disgyblion :**

- Cydweithio â'r holl rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau cyfle cyfartal a chefnogaeth i bob disgybl.
- Gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad a chyfrannu at drefniadau gwella ymddygiad pan fo angen.
- Cyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr ar faterion sy'n gwella deilliannau.

**CH. Dysgu, Addysgu a Chynnydd Disgyblion:**

- addysgu amserlen a benodir yn unol ag anghenion yr ysgol.
- hyrwyddo a datblygu amgylchedd dysgu symbylus ac ymarfer addysgu sy'n sicrhau dysgu effeithiol ar draws ehangder y Cwricwlwm i Gymru a manylebau arholiadau allanol.
- darparu model rôl proffesiynol gan ddangos yn glir addysgu effeithiol, trefniadaeth dosbarth a safonau uchel o gyrhaeddiad, ymddygiad a disgyblaeth
- cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu a monitro ardal(oedd) cwricwlwm neu agwedd(au) cwricwlwm ysgol gyfan.
- cefnogi'r Pennaeth wrth fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd yr addysgu a chyflawniadau plant gan gynnwys dadansoddi data perfformiad.
- cefnogi'r Pennaeth i ddatblygu cysylltiadau â rhieni, ysgolion eraill, sefydliadau addysg a'r gymuned ehangach, gan gynnwys busnes a diwydiant, er mwyn gwella addysgu a dysgu a datblygiad personol y plant.
- cyfrannu at brosesau codi safonau ysgol gyfan drwy fonitro cynnydd disgyblion a hyrwyddo cyrhaeddiad ar draws y cyfnodau allweddol.
- cefnogi'r Pennaeth wrth reoli a threfnu grwpiau perthnasol o blant er mwyn sicrhau bod dysgu ac addysgu effeithiol yn digwydd a bod anghenion datblygiad personol y plant yn cael eu diwallu;

**D. Defnydd effeithiol o staff ac adnoddau**:

- cefnogi'r Pennaeth wrth benodi, trefnu a datblygu staff i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u sgiliau, arbenigedd a phrofiad ac i sicrhau bod gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau;

- gweithio gyda'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr i sefydlu blaenoriaethau ar gyfer gwariant a monitro effeithiolrwydd y gwariant a'r defnydd o adnoddau gyda golwg ar gyflawni gwerth am arian.

**DD. Cyffredinol** :

- gweithredu fel "cyfaill beirniadol" a darparu her a chymorth proffesiynol effeithiol i'r Pennaeth, y staff a'r Corff Llywodraethol.

- chwilio am ac ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi penodol a chyson i hyrwyddo effeithiolrwydd proffesiynol y rôl.

- cynnal gwybodaeth gyfredol o flaenoriaethau cenedlaethol a'u rhannu ag eraill.

- darparu gwybodaeth a chyngor i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol a chefnogi prosesau atebolrwydd priodol ar draws yr ysgol;

- ymgymryd â thasgau penodol mewn perthynas â gweinyddiad a threfniadaeth dyddiol yr ysgol yn unol â chais y Pennaeth

- ymgymryd â chyfrifoldebau newydd y gellid eu pennu o bryd i'w gilydd ar gais y Pennaeth.

- hyrwyddo delwedd broffesiynol y Tîm Arwain mewn agwedd, ymarweddiad ac ymrwymiad i ethos tîm.

- mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol yr ysgol a lle'n briodol, dirprwyo dros y Pennaeth mewn cyfarfodydd.

**Cyfrifoldebau penodol**:

- Bydd dyletswyddau penodol y Dirprwy Bennaeth yn cael eu penderfynu yn unol â sgiliau a phrofiadau'r ymgeisydd llwyddiannus o'u hystyried yng nghyd destun sgiliau a dyletswyddau gweddill y Tîm Arwain. Disgwylir iddo/iddi ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau rhesymol ychwanegol a allai, o dro i dro, gael eu penderfynu yn unol â gradd a lefel cyfrifoldeb oddi mewn i'r sefydliad.

**MAE DIOGELU PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED YN GYFRIFOLDEB CRAIDD I POB UN O'N GWEITHWYR. MAE DISGWYL I WEITHWYR ROI GWYBOD I'W RHEOLWYR LLINELL AM UNRHYW BRYDERON SYDD GYDA NHW O RAN ACHOSION O GAM-DRIN PLANT, POBL IFAINC NEU OEDOLION AGORED I NIWED NEU YMDDYGIAD AMHRIODOL TUAG ATYN NHW**

Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy’n gymesur â graddfa’r swydd fel y bo’n rhesymol ar gais y Pennaeth, neu fel cyfle i ddatblygu wedi’i gytuno ar y cyd.

Gweithredu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â dogfen ‘Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch’ yr ysgol.

Bydd cynnwys y ddogfen yma'n cael ei adolygu'n flynyddol gan ymgynghori â deiliad y swydd. Mae'n bosibl y caiff disgrifiadau swydd eu diwygio i adlewyrchu a chofnodi newidiadau o'r fath a chael eu gwerthuso lle bo angen.

**MANYLEB PERSON SWYDD Y DIRPRWY BENNAETH**

**DIRPRWY BENNAETH**
**MANYLEB PERSON**

| | MEINI PRAWF | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|---|
| 1 | **Cymwysterau** | ➢ Gradd Anrhydedd<br>➢ Statws athro cymwysedig<br>➢ Ar gofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg (neu gyfwerth) | ➢ Cymwysterau pellach perthnasol i'r swydd. |
| 2 | **Datblygiad Proffesiynol** | ➢ Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br>➢ Cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu diweddar sy'n gysylltiedig â rheoli ysgol. | ➢ Profiad o gyfrannu fel hyfforddwr tuag at HMS<br>➢ Awydd i ymgymryd â CPCP |
| 3 | **Profiad** | ➢ Profiad sylweddol o arwain y Cwricwlwm a/neu Ofal Bugeiliol yn llwyddiannus<br>➢ Profiad o gyfrifoldebau ar lefel Uwch Arweinydd mewn ysgol<br>➢ Profiad amlwg o godi safonau addysgol a chyflawni gwelliannau<br>➢ Ymarferydd gwych yn yr ystafell ddosbarth<br>➢ Profiad llwyddiannus sy'n dangos y gallu i fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys yn ogystal ag ysgogi newid a'i reoli<br>➢ Profiad Rheoli Cyflawniad Staff<br><br>➢ Profiad helaeth o arwain ar flaenoriaethau ysgol gyfan<br>➢ Profiad o fonitro a hunanwerthuso ar lefel ysgol gyfan er mwyn | ➢ Profiad o ddysgu amrediad eang o grwpiau oedran<br>➢ Gweithio mewn partneriaeth a chymuned ysgol.<br>➢ Cyfraniad at waith y Corff Llywodraethu<br>➢ Rheolwr llinell i ystod o adrannau/timau<br>➢ Creu/adolygu/monitro polisiau ysgol gyfan<br>➢ Materion Iechyd a Diogelwch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwella perfformiad<br>➢ Profiad o arwain a rheoli newid yn llwyddiannus.<br>➢ Profiad o weithio mewn partneriaeth er mwyn gwella deilliannau<br>➢ Profiad o ddefnyddio data i godi safonau<br>➢ Profiad o ddatblygu perthnasoedd effeithiol ag amrywiaeth o randdeiliaid yr ysgol, yn cynnwys rhieni a'r gymuned ehangach. | |
| **4** | **Gwybodaeth a Dealltwriaeth** | Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r canlynol:<br>➢ Materion ysgol gyfan<br>➢ Cyd-destun presennol Addysg yng Nghymru a Chenhadaeth ein Cenedl a dealltwriaeth o hynny.<br>➢ Gwybodaeth am arferion gorau a gweithdrefnau ynghylch diogelu plant a phobl ifanc.<br>➢ Gwybodaeth a dealltwriaeth diweddar ynghylch beth yn union yw addysgu a dysgu rhagorol a sut i weithredu hynny.<br>➢ Dealltwriaeth dda o'r ddeddfwriaeth addysg bresennol yng Nghymru, yn cynnwys y Deddf ADY 2018, yn ogystal â mesurau atebolrwydd o ran canlyniadau allanol<br>➢ Dealltwriaeth o'r broses gynllunio strategol / gwella ysgol a sut I rhoi hwn ar waith<br>➢ Hunanwerthuso ysgol gyfan | ➢ Datblygiad staff<br>➢ Dealltwriaeth o reoli arian.<br>➢ Gwybodaeth am y gwahanol ffrydiau ariannu (yn allanol i RhYLl) a all fod o gymorth i gynnal y broses ddysgu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ➢ Rheoli Perfformiad<br>➢ Asesu ac Asesu ar Gyfer Dysgu<br>➢ Cwricwlwm gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru<br>➢ Cynhwysiant a chyfle cyfartal<br>➢ Ymagweddau effeithiol at addysgu a dysgu<br>➢ Ffynonellau a phrosesau defnyddio data i godi safonau a gosod targedau.<br>➢ Pwysigrwydd meithrin hunan-barch mewn disgyblion ac mewn datblygiad staff | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5** | **Sgiliau Arwain** | ➢ Yn ymrwymedig i addysg 3-19 cyfrwng Cymraeg o'r safon uchaf i bob disgybl o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Safon Uwch<br>➢ Ymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.<br>➢ Â disgwyliadau uchel ac yn meddu ar lefel uchel o gymhelliant ac ymrwymiad<br>➢ Y gallu i wneud penderfyniadau cadarn a chytbwys, a bod yn bendant ei (h)agwedd ac yn hyblyg.<br>➢ Y gallu i gyfathrebu a datblygu cysylltiadau yn effeithiol, yn llafar ac yn ysgrifenedig, ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.<br>➢ Gweledigaeth o ysgol ble mae dysgu ac addysgu yn ffynnu<br>➢ Sgiliau arwain rhagorol ac enghreifftiau ymarferol o roi'r rhain ar waith yn llwyddiannus<br>➢ Dangos hyblygrwydd a'r gallu i addasu i amgylchiadau newidiol a syniadau newydd.<br>➢ Â thystiolaeth o godi safonau a gwella ysgol<br>➢ Y gallu i feddwl a weithio yn strategol a chreadigol<br>➢ Y gallu i weithio'n annibynnol ac yn rhan o dîm<br>➢ Yn gallu ysbrydoli, cymell, herio a chefnogi staff a disgyblion.<br>➢ Yn meddu ar sgiliau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | TGCh da<br>➢ Blaenoriaethu a rheoli amser yn briodol, yn gallu gweithio dan bwysau ac i derfynau amser.<br>➢ Tystiolaeth o allu sefydlu a chynnal perthnasau da gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni, gofalwyr, rhanddeiliaid ac asiantaethau allanol<br>➢ Tystiolaeth o allu datblygu a hyfforddi eraill mewn hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant<br>➢ Darparu arweiniad proffesiynol a chynhaliaeth ymarferol i gyd-weithwyr<br>➢ Bod yn hyderus wrth ddelio gyda materion gwella ymddygiad disgyblion. | |
| **6** | **Agwedd a gwerthoedd** | ➢ Cyfranogiad at weledigaeth ac amcanion yr ysgol<br>➢ Ymrwymiad i gynhwysiant<br>➢ Disgwyliadau uchel<br>➢ Cyfranogiad tuag at gyfleoedd cyfartal<br>➢ Yn ymrwymedig i greu ethos lle mae'r unigolyn yn cael ei barchu ac mae pob yn cael cyfle i ddatblygu a gweithio'n effeithiol fel tîm<br>➢ Ymrwymiad i ddiogelu plant a phobl ifainc<br>➢ Ymrwymiad i Bolisi Cyfle Cyfartal yr Ysgol a chynhwysiant<br>➢ Parodrwydd i fynychu/cyfrannu at | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | amrywiaeth o ddigwyddiadau/ weithgareddau allgyrsiol.<br>➢ Cyfranogiad i wir bartneriaeth gyda rhieni | |